

TUDALEN 30

Cofnodion y **Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau o bell**, a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom **Nos Lun 26 Gorffennaf 2021** am 6.39pm.

YN BRESENNOL: -Eu Teilyngdod y Maer Cynghorydd Owen Hurcum (ymunodd am 7-12pm, gadawodd am 7-34pm),

Cynghorwyr: Mair Rowlands (Cadeirydd), Medwyn Hughes (Is Gadeirydd), Huw Wyn Jones (*gadawodd y cyfarfod am 7.52pm*), Enid Parry, Nigel Pickavance, Gareth Roberts, Luke Tugwell (*gadawodd y cyfarfod am 7.34pm*), John Wyn Williams (ymunodd am 6-42pm).

Swyddogion:- Iwan Williams (Cyfarwyddwr Dinesig), Gwynfor Owen (Cyfieithydd) Sioned Jones (Cofnodion)

84/21 YMDDIHEURIADAU

Cafwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Elin Walker Jones.

85/21 DATGAN BUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL

Dim.

86/21 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD

Dim.

87/21 DIWEDDARIAD Y CYFARWYDDWR DINESIG

(i) Y Pier: roedd y Cyngor eisoes wedi neilltuo £10k ar gyfer gwaith ar y Pier ac mae angen mwy o gyllid. Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig ei fod yn gweithio ar gais arall i Gronfa Treftadaeth y Loteri. Yn anffodus, bu'n rhaid gohirio'r Digwyddiad Elusennol i Awyr Las ar y 4 Medi a byddai'n digwydd bellach ar 14 Mai 2022. Gosodwyd arwyddion newydd ar y giatiau a'r brif fynedfa. Bu plant ysgol lleol yn cymryd rhan yn y cynllun "Bwydo Bwystfil y Fennai", a gall pobl bleidleisio ar eu hawgrymiadau dros y pythefnos nesaf. Bydd y cynllun buddugol yn cael ei ddangos ar giosg y fynedfa, a gall pobl gyfrannu drwy roi arian yng ngheg y bwystfil. Mae gwirfoddolwyr wedi dechrau gweithio ar y Pier hefyd drwy Ffrindiau Pier Garth Bangor. Cafodd y Pier gryn dipyn o sylw ar raglenni teledu yn ddiweddar a bydd y digwyddiad mawr nesaf yn un mewn cydweithrediad â BBC Cymru ar 18 Awst, gyda Datganiad i'r Wasg i ddilyn. Bydd y *linkspan* yn cael ei dynnu o ben draw'r Pier ac mae'r orsaf bwmpio yn ei lle ond bydd yn golygu mwy o waith. Defnyddiwyd £11k i brynu pren ar gyfer y gwaith hwn.

(ii) Roedd £10k wedi'i neilltuo ar gyfer torri gwair a gwnaed cytundeb bras gyda Chyngor Gwynedd. Dangosodd y Cyfarwyddwr Dinesig daenlen o'r cyfrifoldebau arfaethedig dros y manau gwyrdd. Mae wedi gofyn i'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol am ddogfen fyddai'n ffurfioli'r cytundeb hwn ond yn disgwyl ymateb. Hoffai weld Cyngor Gwynedd yn gwneud gwaith mewn mwy o lefydd ym Mangor, yn cynnwys y Gwersyll Rhufeinig a Mynydd Bangor.

(iii) Dyrannwyd £7.5k ar gyfer y goleuadau Nadolig ac mae'n amser prynu neu logi'r rhain yn awr. Y bwriad yw gofyn i Bangor yn Gyntaf am arian cyfatebol.

(iv) Y Farchnad Awyr Agored – Roedd y Cyfarwyddwr Dinesig wedi trafod â sawl cwmni allanol ac roedd yn gobeithio y byddai ganddo 3 chynnig i'w cyflwyno i'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 6 Medi.

TUDALEN 31

(v) Mannau gwyrdd - gwnaed gwelliannau i Gaeau Ashley. Gallai gwerthu Cae Dargie fod yn anodd gan ei fod yn cael ei ddiogelu fel man agored/lle chwarae, mae angen trafodaethau pellach. Mae angen gwaith brys ar Goedydd Menai oherwydd presenoldeb Llysiau'r Dial a phroblem Clefyd y Coed Ynn. Gerddi Diana - gobeithir gwneud gwaith ar y rhain mewn cydweithrediad ag Adra.

Gofynnodd yr aelodau a ellid dosbarthu copi o'r daenlen torri gwair fel eu bod yn gallu gweld beth sy'n digwydd. Roedd tipyn o bryderon o hyd am chwyn mewn sawl rhan o'r ddinas, a dywedwyd fod Tai Stesion yn arbennig o wael.

Mae'r paent ar y fainc gyfeillgarwch ar Ffordd Penchwintan yn dechrau toddi oherwydd y tywydd poeth.

Roedd yr aelodau'n siomedig nad oedd cynlluniau i ail-ddechrau'r farchnad awyr agored cyn mis Medi, oherwydd byddai gwyliau mis Awst yn cael eu colli. Er bod hyn yn rhwystredig, eglurodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod ail-sefydlu'r farchnad yn golygu llawer o waith - sicrhau fod trwyddedau yn eu lle, llefydd parcio, logisteg ayb. Teimlai un aelod fod angen gwell dewis o nwyddau a stondinau yn y farchnad pan fydd yn ail-agor.

Trafodwyd yr arwyddion "Croeso i Fangor", roedd yr aelodau'n teimlo for yr arwydd ger yr amlogfa yn edrych yn arbennig o ddi-liw. Awgrymwyd gwneud iddo edrych yn fwy croesawgar a rhoi blodau ar y darn o wair lle mae'n sefyll. Teimlai rhai aelodau y byddai'n syniad ei symud ychydig i leoliad mwy deniadol a lle byddai'n haws edrych ar ei ôl. Mae angen sylw ar yr arwydd ger Tesco hefyd.

PENDERFYNWYD

- (i) Fod y Cyfarwyddwr Dinesig yn anfon y cytundeb torri gwair i'r aelodau tra'i fod yn disgwyl am gytundeb mwy ffurfiol.
- (ii) Fod y Cyfarwyddwr Dinesig yn ymchwilio i gostau a phosibiliadau ar gyfer yr arwyddion "Croeso i Fangor".

88/21 CAIS TOCYN BLYNYDDOL FFRINDIAU PIER GARTH BANGOR

Roedd papur eisoes wedi'i ddsbarthu gyda chynnig manwl gan y Ffrindiau. Mae angen codi incwm i'r Pier gan mai dim ond ychydig o ymwelwyr sy'n gwneud cyfraniad gwirfoddol. Bydd cael gwirfoddolwyr ar y safle a chynllun "Bwydo Bwystfil y Fenai" yn gwneud gwahaniaeth.

Roedd y Ffrindiau'n cynnig tocyn blynyddol am £5 i breswylwyr LL57, £10 i fyfyrwyr, £25 i eraill. Codwyd rhai materion - dywedwyd mai dim ond dangos Cerdyn Prifysgol Bangor fyddai'n angen ar fyfyrwyr, nid Cerdyn Undeb Myfyrwyr; beth am blant a phensiynwyr? Yn ôl rhai, roedd £25 yn ddrud ond dywedwyd y byddai pobl oedd â chysylltiadau â Bangor o bosibl yn hapus i brynu tocyn i gefnogi'r Pier neu hyd yn oed i'w roi fel anrheg. Pwy fyddai'n argraffu'r cerdyn? A ellid cynnwys gostyngiadau i werthfannau'r Pier arno?

Wedi trafod y materion hyn, teimlai'r aelodau ei bod yn werth rhoi cynnig ar y cynllun a'i adolygu ar ôl blwyddyn, neu Gwanwyn nesaf. **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cynnig Tocyn Blynyddol. Roedd pawb o blaid.

89/21 RHAGLEN WAITH 12 MIS Y CYNGOR GORFFENNAF 2021 – GORFFENNAF 2022

TUDALEN 32

Roedd y Cyfarwyddwr Dinesig wedi cylchredeg dogfen fanwl, ffrwyth trafodaethau blaenorol a gweithdy strategol y Cyngor ym mis Mehefin. Dywedodd mai'r tair prif ardal i'w gwella ar y Cynllun yw'r Pier, y Farchnad, y Stryd Fawr.

Roedd ychydig o bethau i'w hychwanegu i'r ddogfen; Caeau chwarae, gyda'r Cynghorydd Elin Walker Jones yn arwain ar gynllun Maestryfan; byddai angen penderfyniad am symud lard y Cyngor ac am Dŷ'r Pierfeistr a oedd angen gwaith strwythurol ac amddiffynfeydd môr.

Croesawyd yr adroddiad gan yr aelodau a ddywedodd ei fod yn gadarnhaol iawn. Roeddent yn dymuno gosod goleuadau Nadolig mewn rhannau eraill o Fangor hefyd. Yn ogystal, soniwyd am lwybrau eraill a oedd angen eu gwella, sy'n cael eu defnyddio'n gyson. (Briwas, Lôn Pwyllypla).

Roedd teimlad fod angen amserlen fel y gellid gweld fod pethau'n cael eu gwneud, er bod rhai o'r syniadau eisoes yn cael eu trafod ac maent yn dibynnu ar grantiau amrywiol. Y prif gynnig a oedd angen amserlen oedd y goleuadau Nadolig, mae angen trefnu'r rhain cyn gynted ag y bo modd. Teimlai rhai y dylid cael mwy o amser i drafod y rhaglen hon yn rheolaidd. Atebodd y Cyfarwyddwr Dinesig y gellid trefnu rhagor o gyfarfodydd o'r Pwyllgor AAPh rhwng y dyddiadau a nodwyd, pe bai angen.

PENDERFYNWYD

- (i) Gofyn i Bangor yn Gyntaf a hoffent roi arian cyfatebol ar gyfer y goleuadau Nadolig (£7,500). Gan nad yw'r Pwyllgor hwn yn cyfarfod tan ddiwedd Medi, y Cyfarwyddwr Dinesig i ddiweddau'r aelodau drwy e-bost.
- (ii) Gofyn i'r Cyfarwyddwr Dinesig lunio amserlen fras yn erbyn y gweithredoedd.

85/21 EITEMAU AR GYFER Y CYFARFOD NESAF

Adroddodd y Cynghorydd Enid Parry ei bod hi wedi cynnal arolwg am y Stryd Fawr, yn arbennig Canolfan Menai. Yr ymateb oedd yr hoffai pobl weld mwy o gyfleusterau hamdden, e.e. sinema, ale fowlio, wal ddringo. Byddai'n ddefnyddiol gwybod a yw'r Hyb Iechyd arfaethedig yn mynd i ddod yno. Roedd teimlad y dylai'r Stryd Fawr ei hail-ddiffinio'i hun a dod yn fwy o fan cymdeithasol, hyd yn oed os oedd hynny'n golygu newid oriau agor. Atebodd y Cyfarwyddwr Dinesig fod gan Gyngor Gwynedd fwriad i lunio Cynllun Adfywio i ardal Bangor (i gynnwys y Felinheli) ym mis Medi ac y byddai'n trafod gyda'r aelodau cyn hynny.

Cadarnhawyd y dylai atyniad yr Ystafelloedd Dianc yn adeilad y Cyngor fod ar agor erbyn Nadolig.

Mae Partneriaeth Strategol Bangor yn cyfarfod yn eithaf aml a theimlai'r aelodau y byddai'n ddefnyddiol cael diweddariad ar y prosiectau mawr i gyd (yn cynnwys yr Hyb Iechyd).

Mae yna nifer o grwpiau a fforymau, i gyd yn gweithio dros Fangor, ac roedd teimlad y byddai gwell cyfathrebu a throsglwyddo gwybodaeth yn fuddiol i bawb.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.57pm